

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWIYD A'R NOS LUN 29AIN O EBRILL 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL:

Y Cyngorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Stephen Williams, Rhian Evans, Edmund Evans, Helen Jones, Bari Evans, Manon Davies, Arwel Davies, Rhian Jones, Cyngorydd Sir Ddinbych Elfed Williams ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU.

Y Cyngorydd Ian Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Cyngorydd Helen Jones a'r eitem 9D isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWIYD A'R 25AIN O FAWRTH 2024.

Cadarnhawyd cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 25ain o Fawrth 2024.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA ISOD.

A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gefnogaeth arian y Cyngor oddi wrth y canlynol:-

1. Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr.

2. Cymdeithas Maes-y-Plwm.

B. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd fod Rebecca Musgrave, Swyddog Cyngor Sir Ddinbych, am drefnu rhoi arwydd symudol cyflymdra dros dro ym Mhentre' Llanrhaeadr.

C. Mae Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi trwsio'r twll ar y A525 rhwng Llan Llanrhaeadr a Phentre' Llanrhaeadr. Derbyniwyd adroddiad fos dêr yn cynilo ar y safle a phenderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd am y mater.

6. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.

Neb yn bresennol.

7. AROLWG ANGHENION TAI GWLEDIG YN Y GYMUNED.

Derbyniwyd adroddiad Y Cyngorydd Arwel Davies for y newidiadau i'r arolwg wedi eu cwblhau erbyn hyn ac mi fydd bosib rhyddhau'r wybodaeth i'r cyhoedd trwy'r canlynol:-

A: Wefan y Cyngor.

B. "Facebook" y gymuned.

C. Papurau newyddion Y Bedol a'r Gadlas.

8. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.

Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Un Llais Cymru am y misoedd Mai a Mehefin 2024 ac mi fydd Y Cyngorydd Stephen Williams yn mynychu'r hyfforddiant canlynol:-

A: Modiwl 1 – Y Cyngor ar nos Fercher 5ed o Fehefin 2024.

B. Modiwl 2 – Y Cyngorydd ar nos Fawrth 25ain o Fehefin 2024.

9. MATERION CYLLID.

A: Diweddaraf banc y Cyngor £29,314.53.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r precept y cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2025 £5,819.00.

C. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Dau gwrs hyfforddi Un Llais Cymru £80.00.

2. Cyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod blaenorol y Cyngor £40.00.

3. Clear Councils am yswiriant blynyddol y Cyngor £673.76.

D. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian oddi wrth Gapel Saron am dorri glaswellt y fynwent am y tymor 2024. Penderfynwyd am y rhodd o £500.00.

E. Mandate Banc y Cyngor - Penderfynwyd yr aelodau i'r Cyngorwyr Arwel Davies a Bari Evans ynghyd a'r Clerc i arwyddo'r sieciau'r Cyngor.

10. MATERION CYNLLUNIO.

A: Cais Cynllunio: 23/2023/0878 - Formation of an additional 25 caravan pitches including the construction of internal roads, connections to existing package treatment plant and associated works at Caer Mynydd Farm, Saron. Derbyniwyd ymateb Swyddog Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych i'r gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned yn yr atodiad 1 isod.

Nid oedd yr aelodau yn cytuno'r gyda'r sylwadau'r asiant y cais cynllunio trwy'r Swyddog Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ac felly mae'r gwrthwynebiad gwreiddiol y Cyngor Cymuned yn bodoli.

B. The Paddock, Saron - Adroddwyd fod perchennog Y Paddock wedi torri'r rheolau cynllunio a phenderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

C. Bryn Tirion, Prion - Adroddwyd fod perchennog Bryn Tirion wedi torri'r rheolau cynllunio a phenderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

11. GOHEBIAETH.

Er wybodaeth, dosbarthwyd y Clerc yr e-byst canlynol i'r aelodau'r Cyngor:-

A: Fferm Wynt Fforest Alwen.

B. Gwasanaeth gwastraff newydd Cyngor Sir Ddinbych.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y materion ffyrdd canlynol:-

A: Eisiau arwydd stad Pant-y-Celyn yn Llanrhaeadr.

B. Eisiau llwybr troed rhwng datblygiad newydd stad Maes Cinmeirch a Hafod-y-Bryn yn Llanrhaeadr.

C. Arwydd yn Pen-y-Groes eisiau sylw.

D. Arwydd wrth Ysgol Pant Pastynog eisiau sylw.

E. Llyn o ddŵr ar y ffordd wrth Fwlch, Prion.

F. Ffordd rhwng Lôn a Rhewl Valley, Prion eisiau sylw.

13. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A: Penderfynwyd trafod arwyddion ym Mhrion yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Chadarnhaodd y Clerc ei fod yn dal ati yn ei swydd yn y dyfodol fel Clerc Cyngor Cymuned Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch ar ôl gwellhad iechyd yn gynharach yn y flwyddyn.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – CYFARFOD BLYNYDDOL – NOS LUN 20FED O FAI 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEDR AM 7.00 O'R GLOCH.

ATODID 1.

With regard to the consultation response from Llanrhaedr YC parish council I would respond as follows :

With regard to the comment regarding a discrepancy between existing caravan bases being relocated , I can find no such discrepancy on the drawings having checked the matter. There are 13 existing bases that are being resited on both the existing and proposed layouts

Welsh language

With regard to the percentage of Welsh speakers I acknowledge that there might be a higher percentage locally to Llanrhaeadr, but considered that the wider locality of DCC was an appropriate analysis

Foul water treatment

With regard to the existing treatment plant this matter has been looked into in detail by NRW who have issued the attached exemption for the existing treatment plant

We have now revised the proposals to incorporate a new treatment plant for the additional 25 pitches, which means that loading on the existing exempt tank remains the same as existing. The proposed new treatment plant (Klargester / clearwater Bioficient 38 suitable for 100 persons) will serve the additional 25 pitches (average occupancy of each caravan 3 persons x 25 pitches = 75 people). So the new treatment plant for the additional pitches would have more than adequate capacity

SUDS

SAB approval would normally be sought post planning approval

Past non compliances

We would respectfully comment that any such matters should be considered a separate issue and not considered on the merits of the current application